

CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 15fed Mehefin 2022 ar ôl cyfarfod y Cyngor.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D. Simmons (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs. E. Chard, Mrs. J.M. Evans, S. Feeney, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, A.J. Rutherford, ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol:

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

6. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs. J. Butterfield YH MBE, Mrs. J. Chamberlain-Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Miss C. Williams a Ms. H. Windus – Dirprwy Glerc y Dref.

7. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio fel y nodir isod, a **PHENDERFYNU** arnynt fel y nodir.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

Nodyn 2: Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych yn ddiweddar wedi datgan argyfwng yr hinsawdd yn ffurfiol ac felly byddent yn dymuno bod camau'n cael eu cymryd nawr gan ddatblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio i sicrhau bod holl geisiadau mwy ar gyfer datblygiad yn gwneud y defnydd mwyaf o dechnolegau presennol i leihau'r effaith ar yr hinsawdd.

ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO

7.1 **LLEOLIAD Y SAFLE:** 69 Bryn Cwnin Road, y Rhyl

WARD: Derwen

CYNGHORWYR Y WARD: Mrs. J. Chamberlain Jones
Mrs. E.M. Chard
Miss S. Roberts

RHIF Y CAIS: 45/2022/0458

DISGRIFIAD: Adeiladu estyniad i gefn tŷ annedd a gwaith cysylltiedig

YMGEISWYR: Mr. a Mrs. Daniel a Andrea Frybus o'r cyfeiriad uchod

PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad

7.2.	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 11 Owen Close, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Derwen</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Chamberlain Jones Mrs. E.M. Chard Miss S. Roberts</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2022/0463</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniad un lawr i ochr tŷ annedd</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Mrs. Elizabeth Anthony o'r cyfeiriad uchod</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
7.3.	<p><u>AIL-YMGYNGHORIAD</u></p> <p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Meithrinfa Ddydd Early Learners 13 Dyserth Road, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Pendyffryn</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> A.J. Rutherford D. Simmons</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2022/0226</p> <p><u>DISGRIFIAD DIWYGIEDIG:</u> Amrywio Amod 2 caniatâd cynllunio 45/2010/0171/PF i ddarllen "ni fydd mwy na 43 o blant yn y feithrinfa ddydd ar unrhyw adeg"</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Ms Rachael Wood o'r cyfeiriad uchod</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Gwrthwynebu am resymau diogelwch y ffordd sy'n parhau i fod yn broblem gyda'r nifer bresennol o blant sy'n mynychu</i></p>
7.4	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> Ysgol Emmanuel, Victoria Road, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Cefndy</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. D. King Mrs. P.M. Jones P. Prendergast</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2022/0435</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Ailwampio adeilad mynedfa presennol gan gynnwys adnewyddu drysau a ffenestri, adeiladu ramp mynediad i bobl anabl a gosod estyniad mewnlenni i ddarparu cyfleusterau lles. Cael gwared â'r driniaeth bresennol i'r ffin yn y blaen a gosod ffens newydd gan gynnwys gattiau i gerddwyr a cherbydau, tirlunio a gwaith cysylltiedig</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Lisa Walchester, Cyngor Sir Ddinbych</p>

	<p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
7.5	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> McDonald's Restaurant, Ffordd Derwen, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Derwen</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs. J. Chamberlain Jones Mrs. E.M. Chard Miss S. Roberts</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2022/0482</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Gosod rhwydi adar ar y to</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> McDonalds Restaurants Ltd.</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Gwrthwynebu am y rhesymau canlynol</i></p> <ol style="list-style-type: none"> 1. <i>Mae'r cais yn ceisio rhwystro Gwyfanod rhag nythu ond nid yw'n cymryd i ystyriaeth rywogaethau adar eraill neu fywyd gwyllt arall yn yr ardal a'r effaith bosibl ar y rhywogaethau hynny. Y pryder yw y gallai maint y bylchau yn y rhwyd ganiatau i rywogaethau llai eraill fynd i mewn a chael eu dal. Gallai'r rhwyd hefyd fod yn berygl i'r gwyfanod a rhywogaethau eraill a warchodir – nodir bod Cngor Sir Ddinbych wedi symud ymaith rwydi tebyg o Sinema Vue y Rhyl ar ôl i wylan gael ei dal yno.</i> 2. <i>Nid yw'r cais yn cynnwys unrhyw fanylion o sut y bydd y to yn cael ei fonitro. O ystyried bod ymyl y to yn uwch na'r to fflat sy'n cael ei guddio o'r ddaear, mae pryder y byddai unrhyw fywyd gwyllt sy'n cael e ddal yn debygol o fynd heb ei weld. Ystyrir y gall hyn fod yn groes i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981</i> 3. <i>Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi datgan argyfwng hinsawdd ac ystyrir bod defnyddio polyethylen ar gyfer y rhwyd yn mynd yn groes i'r polisiau hyn. Os cymeradwyir y cais, yna gofynnir bod amod yn cael ei atodi yn gofyn am ddefnyddio rhwyd nad yw wedi ei wneud o blastig.</i> 4. <i>Nododd yr Adroddiad Ecoleg a gyflwynwyd dan gais rhif 45/2019/0592 bresenoldeb ystlumod o gwmpas y safle a byddai'r Cyngor yn gofyn bod arolwg priodol yn cael ei wneud i hystyried yr effaith debygol ar ystlumod a rhywogaethau eraill.</i> 5. <i>Nodir bod y gwaith a grybwyllir yn y cais hwn eisoes wedi ei wneud, ac os gwrthodir y cas, gofynnir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gymryd camau gofodi priodol i dynnu ymaith y rhwydi.</i>
7.6	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 64 Brighton Road, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Plastirion</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> Mrs J. Evans K.R. Jones</p>

	<p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2022/0485</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Amrywio amod rhif 2 caniatâd cynllunio 45/2020/0096/PF i ganiatau mân newidiadau i'r cynllun a gymeradwywyd</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Mr. Nadarajah Pragash of Headlands Nursing Home, Tower Road, Llangollen</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
7.7	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 2 Carlisle Avenue, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Brynhedydd</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> B. Mellor S. Feeney</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2022/0509</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniad porth i du blaen ac estyniad un llawr yng nhefn y tŷ annedd</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Mr. Steve Bainbridge o'r cyfeiriad uchod</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
7.8	<p><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u> 32 Madryn Avenue, y Rhyl</p> <p><u>WARD:</u> Pendyffryn</p> <p><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u> A.J. Rutherford D. Simmons</p> <p><u>RHIF Y CAIS:</u> 45/2022/0513</p> <p><u>DISGRIFIAD:</u> Adeiladu estyniad un llawr to fflat yng nhefn y tŷ annedd</p> <p><u>YMGEISWYR:</u> Mr Dave McKeown o'r cyfeiriad uchod</p> <p><u>PENDERFYNIAD:</u> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>

8. **APEL CYNLLUNIO 45/2021/1055: RHIF APELIO CAS-01885-Z0F5C2 – 188
FFORDD ARFORDIR Y RHYL, Y RHYL**

PENDERFYNWYD nodi bod apêl wedi ei chyflwyno gan yr Ymgeiswyr yn erbyn gwrthodiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol i roi caniatâd cynllunio mewn perthynas â'r cais uchod.

9. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion pellach, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Llofnod:

Dyddiad:15.06.2022.....